YSGOL BRYNREFAIL

PLANT MEWN ANGEN

'Grrrrêt' meddai Toni y teigr mae hi'n ddiwrnod 'Plant mewn Angen' ac efallai y bydd rhai pobl yn cydymdeimlo a theigr mewn angen.
Yr oedd Carwyn Lowe, y teigr o Waunfawr, ymhlith lu o ddisgyblion benderfynodd wisgo dillad arbennig i ddathlu diwrnod 'Plant mewn Angen' yn Ysgol Brynrefail ac yn wir fe gasglwyd £1,250 tuag at yr achos da.

Yn ystod yr awr ginio yr oedd y neuadd dan ei sang tra bu gornest ' Brynrefail's Got Talent' a llu o ddawnswyr, cantorion ac yn y blaen yn gwneud eu gorau o flaen y gynulleidfa. Ac yn wir dawns sgets Idwal a Jên aeth a'r gymeradwyaeth fwyaf ac yr oedd Chloe Roberts ac Iola Bryn Jones ar ben eu digon.